OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 325

# Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002

## RHAN IV

## GOFYNION YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I YSBYTAI ANNIBYNNOL

### PENNOD 1

### GWASANAETHAU PATHOLEG, DADEBRU A THRIN PLANT MEWN YSBYTAI ANNIBYNNOL

**Cymhwyso rheoliadau 33 i 35**

**32.**—(1) Mae rheoliadau 33 i 35 yn gymwys i ysbytai annibynnol o'r mathau canlynol—

(a) y rhai a ddiffinnir yn adran 2(3)(a)(i) o'r Ddeddf ac eithrio sefydliadau sydd wedi'u heithrio gan reoliad 3(3); a

(b) y rhai lle mae triniaeth feddygol, gan gynnwys llawdriniaeth gosmetig, yn cael ei darparu o dan anesthesia neu dawelydd.

(2) Mae rheoliad 33 hefyd yn gymwys i unrhyw sefydliad sy'n darparu gwasanaethau patholeg.

**Gwasanaethau patholeg**

**33.** Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) bod ystod ddigonol o wasanaethau patholeg ar gael i fodloni anghenion yr ysbyty;

(b) bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu yn ôl safon briodol;

(c) bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer casglu sbesimenau patholeg, ac ar gyfer eu cludo (pan ddarperir gwasanaethau patholeg y tu allan i'r ysbyty); a

(ch) bod modd bob amser adnabod y person y cymerwyd sbesimen ohono, a'r sbesimen hwnnw.

**Dadebru**

**34.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a rhoi ar waith ddatganiad ysgrifenedig o'r polisïau sydd i'w cymhwyso a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn yn yr ysbyty mewn perthynas â dadebru cleifion a rhaid iddo adolygu'r datganiad hwnnw bob blwyddyn.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu rhoi ar waith yn unol â pharagraff (1)—

(a) yn cymryd ystyriaeth briodol o hawl pob claf sy'n gymwys i wneud hynny i roi neu i wrthod rhoi cydsyniad i driniaeth;

(b) ar gael os gwneir cais amdanynt i bob claf ac unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran claf; ac

(c) yn cael eu cyfathrebu i bob cyflogai ac ymarferydd meddygol â breintiau ymarfer a allai fod yn gysylltiedig â phenderfyniadau ynghylch dadebru claf, gan sicrhau eu bod yn eu deall.

**Trin plant**

**35.** Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau, pan fo plentyn yn cael ei drin yn yr ysbyty—

(a) bod y plentyn yn cael ei drin mewn llety sydd ar wahân i'r llety y mae cleifion sy'n oedolion yn cael eu trin ynddo;

(b) bod anghenion meddygol, corfforol, seicolegol, cymdeithasol ac addysgol penodol ac anghenion penodol am oruchwyliaeth sy'n deillio o oedran y plentyn yn cael eu bodloni;

(c) bod triniaeth y plentyn yn cael ei darparu gan bersonau â chanddynt gymwysterau, medrau a phrofiad priodol mewn trin plant;

(ch) bod rhieni'r plentyn yn cael eu hysbysu'n llawn o gyflwr y plentyn ac i'r graddau y bo hynny'n ymarferol ymgynghorir â hwy ynghylch pob agwedd o driniaeth y plentyn, heblaw pan fo'r plentyn yn gymwys i roi cydsyniad i driniaeth ac nad ydyw am i'w rieni gael eu hysbysu a'u hymgynghori ynghylch hynny.

PENNOD 2

YSBYTAI ANNIBYNNOL LLE DARPERIR GWASANAETHAU RHESTREDIG PENODOL

**Gweithdrefnau llawfeddygol**

**36.**—(1) Pan ddarperir triniaeth feddygol (gan gynnwys llawdriniaeth gosmetig) o dan anesthesia neu dawelydd mewn ysbyty annibynnol, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) bod pob theatr lawdriniaeth yn cael ei chynllunio, ei chyfarparu a'i chynnal yn ôl safon sy'n briodol ar gyfer ei defnydd;

(b) bod pob llawdriniaeth yn cael ei gwneud gan, neu o dan gyfarwyddyd, ymarferydd meddygol a chanddo gymwysterau, medrau a phrofiad addas;

(c) bod nifer priodol o gyflogeion a chanddynt gymwysterau, medrau a phrofiad addas yn bresennol yn ystod pob gweithdrefn lawdriniaethol; a

(ch) bod y claf yn cael triniaeth briodol—

(i) cyn bod anesthetig neu dawelydd yn cael ei roi;

(ii) tra'i fod yn cael gweithdrefn lawdriniaethol;

(iii) tra'i fod yn ymadfer ar ôl anesthesia cyffredinol; a

(iv) wedi'r llawdriniaeth.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau cyn i glaf gydsynio ag unrhyw lawdriniaeth a gynigir gan yr ysbyty annibynnol, bod y claf wedi cael gwybodaeth glir a chynhwysfawr ynghylch y weithdrefn ac unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â hi.

(3) Yn achos claf nad yw'n gymwys i gydsynio â llawdriniaeth, rhaid darparu'r wybodaeth a grybwyllwyd ym mharagraff (2), pryd bynnag y bo modd, i'w gynrychiolwyr.

**Triniaeth ddeintyddol o dan anesthesia cyffredinol**

**37.** Pan fo'r driniaeth a ddarperir mewn ysbyty annibynnol yn cynnwys triniaeth ddeintyddol o dan anesthesia cyffredinol, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) bod gan y deintydd ac unrhyw weithwyr sy'n ei gynorthwyo gymwysterau, medrau a phrofiad addas i ddelio ag unrhyw argyfwng sy'n digwydd yn ystod anesthesia cyffredinol neu driniaeth neu o ganlyniad iddynt; a

(b) bod cyfleusterau, cyffuriau a chyfarpar digonol ar gael i ddelio ag unrhyw argyfwng o'r fath.

**Gwasanaethau obstetrig — staffio**

**38.**—(1) Mae'r rheoliad hwn a rheoliad 39 yn gymwys i ysbyty annibynnol lle darperir gwasanaethau obstetrig ac, mewn perthynas â geni plant, gwasanaethau meddygol.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig benodi Pennaeth Gwasanaethau Bydwreigiaeth sy'n gyfrifol am reoli darpariaeth gwasanaethau bydwreigiaeth yn yr ysbyty annibynnol a, heblaw mewn achosion lle darperir gwasanaethau obstetrig yn yr ysbyty yn bennaf gan fydwragedd, Pennaeth Gwasanaethau Obstetrig y mae ei enw wedi'i gynnwys yn y gofrestr feddygol arbenigol mewn perthynas ag arbenigeddd mewn obstetreg ac sy'n gyfrifol am reoli darpariaeth gwasanaethau obstetrig.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y proffesiynolyn gofal iechyd sy'n bennaf cyfrifol am ofalu am fenywod beichiog a chynorthwyo adeg geni plant yn fydwraig, ymarferydd cyffredinol a chanddo gymwysterau priodol, neu ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi'i gynnwys yn y gofrestr feddygol arbenigol mewn perthynas ag arbenigedd mewn obstetreg.

(4) Pan gaiff gwasanaethau obstetrig eu darparu mewn ysbyty annibynnol yn bennaf gan fydwragedd, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gwasanaethau ymarferydd meddygol sy'n gymwys i ddelio ag argyfyngau obstetreg ar gael bob amser.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod proffesiynolyn gofal iechyd sy'n gymwys i ymgymryd â dadebru baban newydd anedig ar gael yn yr ysbyty bob amser a bod medrau'r person hwnnw yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac, os oes angen, eu diweddaru.

**Gwasanaethau obstetrig — gofynion pellach**

**39.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) y rhoddir gwybod am unrhyw farwolaeth claf mewn ysbyty annibynnol yn ystod, neu o ganlyniad i, feichiogrwydd neu eni plant; a

(b) y rhoddir gwybod am unrhyw enedigaeth marw neu farwolaeth baban newydd-anedig mewn ysbyty annibynnol, i unrhyw berson sy'n cynnal ymchwiliad i farwolaethau o'r fath ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol(**1**).

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cyfleusterau ar gael o fewn yr ysbyty i ddarparu triniaeth ddigonol i gleifion yr oedd angen ymyrraeth lawfeddygol arnynt neu fod gefeiliau wedi cael eu defnyddio arnynt wrth eni eu plentyn a bod bydwraig a chanddi brofiad priodol yn gofalu am gleifion o'r fath.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer trosglwyddo claf a'i phlentyn newydd-anedig i gyfleusterau gofal critigol o fewn yr ysbyty neu rywle arall yn y cyffiniau agos, pan fo hynny'n angenrheidiol, a hynny ar unwaith.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer trin, ac, os oes angen, trosglwyddo i gyfleuster gofal arbenigol, glaf sâl iawn neu blentyn newydd-anedig.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cofnod mamolaeth yn cael ei gynnal ar gyfer pob claf sy'n cael gwasanaethau obstetrig a phob plentyn a enir yn yr ysbyty, a'i fod—

(i) yn cynnwys y manylion a bennir yn rheoliad 20(1)(a) ac yn Rhannau I a II o Atodlen 4; a

(ii) yn cael ei gadw am gyfnod o nid llai na 25 mlynedd gan ddechrau ar ddyddiad y cofnod diwethaf; a bydd gofynion rheoliad 20(2) yn gymwys i'r cofnod hwnnw.

(6) Yn y rheoliad hwn—

mae i "genedigaeth farw" yr ystyr a roddir i "stillbirth" yn Neddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953(**2**);

(**1**) Mae'r Ymchwiliad Cyfrinachol i Farwolaethau Mamau a'r Ymchwiliad Cyfrinachol i Enedigaethau Marw a Marwolaethau mewn Babandod yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ac Adrannau eraill gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

(**2**) 1953 p.20. *Gweler* adran 41, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Genedigaethau Marw (Diffiniad) 1992 (p.29), adran 1(1).

ystyr "marwolaeth baban newydd-anedig" yw marwolaeth plentyn cyn pen diwedd y cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau â dyddiad geni'r plentyn.

### Terfynu beichiogrwydd

**40.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ysbyty annibynnol lle mae beichiogrwydd yn cael ei derfynu.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau na chaiff unrhyw glaf ei dderbyn i ysbyty i derfynu beichiogrwydd, ac na chodir ac na dderbynnir ffi oddi wrth glaf mewn perthynas â therfynu, oni dderbyniwyd dwy dystysgrif barn mewn perthynas â'r claf.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y tystysgrifau barn sy'n ofynnol o dan baragraff (2) yn cael eu cynnwys gyda chofnod meddygol y claf, o fewn ystyr rheoliad 20.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau na therfynnir unrhyw feichiogrwydd ar ôl 20fed wythnos beichiogiad, oni bai—

(a) bod y claf yn cael ei drin gan bersonau a chanddynt gymwysterau, medrau a phrofiad addas i derfynu beichiogrwydd yn hwyr; a

(b) bod gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu i ddelio ag unrhyw argyfyngau meddygol sy'n digwydd yn ystod y terfynu neu o ganlyniad iddo.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau na chaiff beichiogrwydd ei derfynu wedi 24ain wythnos beichiogiad.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cofrestr o gleifion sy'n terfynu eu beichiogrwydd yn cael ei chadw yn yr ysbyty, a'i bod—

(i) ar wahân i'r cofrestr o gleifion sydd i'w chynnal o dan baragraff 1 o Atodlen 3;

(ii) yn cael ei chwblhau ar gyfer pob claf ar adeg cyflawni'r terfyniad; a

(iii) yn cael ei chadw am gyfnod o nid llai na thair blynedd gan ddechrau ar ddyddiad y cofnod olaf.

(7) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o gyfanswm niferoedd y terfyniadau a wnaed yn yr ysbyty, a bydd gofynion rheoliad 20(3) yn gymwys i'r cofnod hwnnw.

(8) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod hysbysiad ysgrifenedig yn cael ei anfon at Brif Swyddog Meddygol y Cynulliad Cenedlaethol o bob beichiogrwydd a derfynir yn yr ysbyty(**3**).

(9) Os bydd y person cofrestredig—

(a) yn cael gwybodaeth ynghylch marwolaeth claf sydd wedi cael terfyniad beichiogrwydd yn yr ysbyty yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y dyddiad y daeth yr wybodaeth i law; a

(b) bod ganddo resymau dros gredu y gallai marwolaeth y claf fod yn gysylltiedig â'r terfyniad, rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r Cynulliad yn ysgrifenedig am yr wybodaeth honno, o fewn y cyfnod o 14 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod pan dderbynnir yr wybodaeth.

(10) Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a gweithredu gweithdrefnau priodol yn yr ysbyty er mwyn sicrhau bod meinwe ffetysol yn cael ei thrin â pharch.

(11) Yn y rheoliad hwn, ystyr "tystysgrif barn" yw tystysgrif sy'n ofynnol gan reoliadau a wnaed o dan adran 2(1) o Ddeddf Erthylu 1967(**4**).

(**3**) *Gweler*O.S. 1991/499, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i hysbysiad o'r fath gael ei roi gan yr ymarferydd meddygol sy'n gwneud y terfyniad.

(**4**) 1967 p.87. *Gweler*O.S. 1991/499.

### Defnyddio technegau neu dechnolegau penodol

**41.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau na ddefnyddir unrhyw gynnyrch laser Dosbarth 3B neu Ddosbarth 4 (o fewn ystyr rheoliad 3(1)), na ffynhonnell golau dwys (o fewn ystyr y rheoliad hwnnw) mewn ysbyty annibynnol neu at ddibenion ysbyty o'r fath oni bai bod yr ysbyty hwnnw wedi sefydlu protocol proffesiynol sydd wedi'i lunio gan ymarferydd meddygol neu ddeintydd hyfforddedig a phrofiadol yn y ddisgyblaeth berthnasol, bod y driniaeth i'w darparu yn unol â'r protocol hwnnw a bod y driniaeth yn cael ei darparu yn unol ag ef.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau mai dim ond gan berson sydd wedi cael hyfforddiant priodol ac sydd wedi dangos ei fod yn deall y materion canlynol y mae cynnyrch laser neu ffynhonnell golau dwys o'r fath yn cael eu defnyddio yn yr ysbyty neu at ddibenion yr ysbyty—

(a) sut i ddefnyddio'r cyfarpar dan sylw yn gywir;

(b) y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cynnyrch laser neu ffynhonnell golau dwys;

(c) ei effeithiau biolegol ac amgylcheddol;

(ch) y rhagofalon i'w cymryd cyn defnyddio cynnyrch laser neu ffynhonnell golau dwys ac wrth eu defnyddio; a

(d) y camau i'w dilyn os bydd damwain, argyfwng, neu ddigwyddiad andwyol arall.

## PENNOD 3

## YSBYTAI IECHYD MEDDWL

### Cymhwyso rheoliadau 43 i 46

**42.** Mae rheoliadau 43 i 46 yn gymwys i ysbytai annibynnol o'r mathau canlynol—

(a) y rhai y mae darparu triniaeth feddygol neu seiciatrig ar gyfer anhwylder meddyliol yn brif ddiben ganddynt; a

(b) y rhai lle darperir triniaeth neu wasanaeth nyrsio (neu'r ddau) ar gyfer personau sy'n agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**5**).

### Diogelwch cleifion ac eraill

**43.**—(1) Rhaid i'r datganiad o bolisïau a gweithdrefnau sydd i'w baratoi a'i weithredu gan y person cofrestredig yn unol â rheoliad 8(1)(d) gynnwys polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â'r canlynol—

(a) asesu tueddiad claf tuag at drais a hunan-niwed;

(b) darparu gwybodaeth i gyflogeion ynghylch canlyniad asesiad o'r fath;

(c) asesiad o effaith cynllun safle'r ysbyty, a'i bolisïau a'i weithdrefnau, ar y risg y byddai claf yn niweidio ei hun neu berson arall; ac

(ch) yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu er mwyn galluogi cyflogeion i leihau'r risg y byddai claf yn niweidio ei hun neu berson arall.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig, yn benodol, baratoi a gweithredu protocol hunanladdiad yn yr ysbyty sy'n gofyn am—

(a) archwiliad cynhwysfawr o gyflwr meddwl pob claf;

(b) cloriannu hanes anhwylder meddwl claf, gan gynnwys adnabod tueddiadau hunanladdol;

(c) cynnal asesiad o dueddiad y claf i hunanladdiad; ac

(ch) os oes angen, cymryd camau priodol i leihau'r risg y byddai claf yn lladd ei hun.

(**5**) 1983 p.20.

### Rheoli ymddygiad afreolaidd

**44.** Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig sy'n nodi—

(a) sut y bwriedir rheoli ymddygiad afreolaidd gan glaf;

(b) mesurau atal a ganiateir a'r amgylchiadau pan y gellir eu defnyddio;

(c) gofynion i gyflogeion adrodd ar enghreifftiau difrifol o drais neu hunan-niwed, gan gynnwys canllawiau ynghylch sut y dylid dosbarthu'r digwyddiadau hyn; ac

(ch) y weithdrefn ar gyfer adolygu digwyddiadau o'r fath a phenderfynu ar y camau sydd i'w dilyn wedi hynny.

### Ymwelwyr

**45.** Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a gweithredu polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig yn yr ysbyty mewn perthynas â chleifion yn derbyn ymwelwyr.

### Cofnodion iechyd meddwl

**46.** Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unrhyw gofnodion y mae'n ofynnol eu cadw o dan Reoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidwadaeth a Chydsynio â Thriniaeth) 1983(**6**), ac sy'n ymwneud â chadw claf o dan orchymyn mewn ysbyty annibynnol neu ei drin, yn cael eu cadw am gyfnod nad yw'n llai na phum mlynedd gan ddechrau ar y dyddiad y mae'r person y maent yn ymwneud ag ef yn peidio â bod yn glaf yn yr ysbyty.

(**6**) O.S. 1983/893, fel y'i diwygiwyd.